

# YMLAEN®

## EIN STRATEGAETH AR GYFER

## GWEITHGAREDDAU DYFROL YNG NGHYMRU

2023

SWIM WALES
NOFIO CYMRU

# YMLAEN®

## MAE NOFIO CYMRU YN FALCH O LANSIO STRATEGAETH 3 BLYNEDD NEWYDD SY'N GWELD Y CORFF LLYWODRAETHU AR GYFER GWEITHGAREDDAU DYFROL I BAWB AM OES YNG NGHYMRU YN RHANNU EI UCHELGAIS PWRPASOL AR GYFER Y GAMP, ER MWYN ADEILADU AR Y MOMENTWM Y MAE'R GAMP WEDI'I WELD YN YSTOD Y BLYNYDDOEDD DIWETHAF A'I DATBLYGU YMHELLACH AR GYFER Y BLYNYDDOEDD I DDOD.

Mae ein strategaeth YMLAEN yn amlinellu'r bwriad i gyflymu datblygiad a thwf ein gweithgareddau a chwaraeon dŵr ar bob lefel yng Nghymru, o'r lefel sylfaenol trwy gyfranogiad ar lawr gwlad ac ymlaen i'n timau cenedlaethol elît, gan wneud y gamp yn fwy amlwg ac arwain menter sy'n effeithio ar fywydau yn y pwll, y llyn, neu'r gronfa ddŵr a thu hwnt.

Wrth wraidd ei ddiben, bydd Nofio Cymru, gyda'i sylfeini balch ac amrywiol yn parhau i ymroi i gynyddu cyfleoedd i blant ac oedolion Cymru fwynhau, cymryd rhan, dysgu a chystadlu mewn Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes yng Nghymru. Fel blaenoriaeth, byddwn yn parhau i hyrwyddo cyfranogiad cyfartal rhwng y rhywiau a mynd i'r afael â chynhwysiant cymunedau amrywiol a sicrhau bod GWEITHGAREDDAU DYFROL I BAWB AM OES.

Yn sail i hyn fydd degawdau o ymgysylltu â'n cymunedau yng Nghymru a chyflwyno Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes iddynt. Mae'r sefydliad yn addo deall a chefnogi pawb ym mhob cyfnod bywyd a phob oedran.

Mae'r sefydliad hefyd wedi ymrwymo i gyflwyno ein camp i gynulleidfaoedd newydd ym mhob cymuned, fel bod Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes yn cynrychioli amrywiaeth gyfoethog y wlad y mae'n falch o'i chynrychioli, a sicrhau bod ein gweithgareddau a'n chwaraeon yn parhau i esblygu ac addasu er mwyn ffynnu yn y dyfodol, gan helpu i greu camp wirioneddol gynhwysol i bawb

lle mae pawb yn gallu perthyn, ffynnu a serennu. Bydd y bartneriaeth gyda Speedo, Nofio Prydain a'r gwledydd cartref a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn helpu i ddatblygu ac ehangu ein cyfranogiad yn ein gweithgareddau a'n campau wrth i Nofio Cymru addo hyrwyddo gwahaniaeth a chofleidio'r cyfle i sicrhau bod y gamp yn bosibilrwydd sydd o fewn cyrraedd pawb.

Mae trawsnewid Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes ar gyfer plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth strategol er mwyn diogelu dyfodol y gamp – mae nofio yn sgil bywyd, yr unig gamp a all achub eich bywyd. Bydd gweithio gydag ysgolion a llunwyr polisi i ymestyn llythrennedd corfforol a chymhwysedd dŵr, ac ar ôl y

diwrnod ysgol gyda ffocws ar ddarpariaeth arbennig ar gyfer dysgu nofio yn paratoi'r ffordd ar gyfer mwy o hygyrchedd, cyfranogiad cymunedol a llai o achosion o foddi.



SWIM WALES
NOFIO CYMRU

# YMLAEN®

## BYDD Y SEFYDLIAD YN CYFLYMU EHANGIAD EI RAGLEN SBLASH A SWIGOD I BLANT IFANC TRA'N CEFNOGI POBL IFANC YN EU HARDDEGAU A MENYWOD IFANC YN ARBENNIG I AROS YN EIN CAMP A'U CADW NHW'N GORFFOROL EGNÏOL AC YN MWYNHAU GWEITHGAREDDAU DYFROL I BAWB AM OES.

Mae ffocws hefyd ar ein chwaraeon elît a'n huchelgais yw i sicrhau mai ein sgwadiau elît ni yw'r rhaglen wlad gartref fwyaf llwyddiannus sy'n cefnogi ein timau cenedlaethol i ennill ar lwyfan y byd yn gyson. Byddwn yn parhau i geisio sicrhau bod gennym lwybr talent rhagorol ar waith i danio llwyddiannau cynaliadwy i mewn ac allan o'r pwll, a byddwn yn gosod safonau newydd ar gyfer y 5 disgyblaeth Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes a ariennir.

Mae masnacheiddio ein chwaraeon dros y degawd nesaf yn flaenoriaeth, gan ganolbwyntio ar dyfu cystadleuthau a digwyddiadau rhyngwladol a domestig sydd ar flaen y gad, a chreu mwy o yrfaoedd yn y gamp ar gyfer ein hathletwyr ifanc a thalentog o Gymru.

Yn seiliedig ar adborth gan y teulu Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes ar ôl ymgynghori â dros 10,000+ o aelodau a rhanddeiliaid fel rhan o'r broses strategol er mwyn deall yr hyn yr oeddent eisiau i ddigwydd o ran Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes yn 2026, mae'r cynllun yn uchelgeisiol ac yn obeithiol ac yn gweld y sefydliad yn addo parhau i fod yn arloesol yn ein camp wrth iddi gychwyn ar ei siwrne newydd.

Er mwyn helpu i wireddu'r pwrpas mae 6 'bloc' allweddol yn strategaeth YMLAEN, yn seiliedig ar 20+ o amcanion a fydd yn dod â'n strategaeth yn fyw. Mae gan Nofio Cymru 4 gwerth craidd a fydd darparu'r 'egwyddorion moesegol' er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn glynu at ei bwrpas, a helpu i arwain y gweithlu, y gymuned wirfoddoli, partneriaid a'r teulu Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes yn ehangach ar y siwrnai. Cefnogir strategaeth YMLAEN gan edrychiad newydd ffres ar gyfer Nofio Cymru, gyda hunaniaeth brand a logo newydd. Wedi ei ysbrydoli gan fewnwelediadau ac adborth gan y teulu Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes a thu hwnt, mae Nofio Cymru wedi creu brand hyderus ond cyfeillgar i gyd-fynd â'r daith sydd o'u blaenau.



SWIM WALES
NOFIO CYMRU

# YMLAEN

## “MAE HWN YN GYFNOD CYFFROUS IAWN I’R SEFYDLIAD WRTH I NI LANSIO EIN STRATEGAETH 3 BLYNEDD NEWYDD SY’N CAEL EI GYRRU GAN BWRPAS CLIR A DIWYRO I YSBRYDOLI TWF AR DRAWS YR HOLL GAMP.

**- Fergus Feeney, Prif Swyddog Gweithredol Nofio Cymru**

“Wrth i ni ddod allan o’r blynyddoedd heriol diwethaf, ac ar ôl ein Gemau Olympaidd mwyaf llwyddiannus ers dros 100 mlynedd a chanlyniadau a dorrodd recordiau yng Ngemau’r Gymanwlad yn Birmingham yr haf diwethaf, rydym yn wynebu blwyddyn unigryw i weithgareddau dŵr yng Nghymru. Rydym yn profi heriau argyfwng ynni byd-eang wrth i ni ddechrau cyflymu’r cynllun uchelgeisiol a thrawsnewidiol hwn i’r gamp ar gyfer 2026 a thu hwnt.

“Ein nod yw, erbyn 2026, y bydd Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes yng Nghymru yn cynnig taith heini wirioneddol am oes, gyda chynnig cynhwysol i bob cymuned yn cael ei chefnogi ar bob cam bywyd a phob oedran, i fod y gamp o ddewis i bawb am flynyddoedd i ddod.

“Rydyn ni hefyd eisiau gweld yr amgylcheddau a’r strwythurau proffesiynol yn eu lle yn y gamp elît er mwyn iddi fod y gorau yn y byd ym mhob ystyr a darparu llawer mwy o yrfaoedd yn y gamp.


“Rydyn ni wedi dysgu gwersi o’r degawd diwethaf er mwyn llywio’r nesaf, a hoffwn ddiolch i’r teulu Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes am helpu i gyd-greu ein cenhadaeth, gyda phob un elfen o’r strategaeth YMLAEN wedi’i gwreiddio mewn adborth a mewnwelediad o’n cymunedau.

“Fel sefydliad rydyn ni’n cychwyn ar daith i wireddu ein nodau ac yn parhau i ailddychmygu ac ailddyfeisio ein hunain er mwyn i ni aros yn berthnasol i gymunedau, gan gysylltu gyda’n cynulleidfaoedd mewn ffordd fwy pwerus nag erioed o’r blaen, er mwyn tyfu a datblygu ein chwaraeon ar bob lefel am flynyddoedd i ddod.”

## RYDYM YN GOBEITHIO Y BYDDWCH YN MWYNHAU DARLLEN Y DDOGFEN STRATEGAETH HON A *DIOLCH AM CHWARAE EICH RHAN YN EI CHREU!*



SWIM WALES
NOFIO CYMRU



# EIN DULL

## UN WELEDIGAETH

## UN GENHADAETH

## CHWE 'BLOC' STRATEGOL

1 - GWEITHGAREDDAU DYFROL I BAWB AM OES
2 - PERFFORMIAD ELÎT
3 - LLYWODRAETHU
4 - MASNACHOL
5 - ARWEINYDDIAETH SECTORAU
6 - ADDYSG AC IECHYD

## 250+ O BARTNERIAID CYFLENWI SECTORAU

22 AWDURDOD LLEOL
11 YMDDIRIEDOLAETH HAMDDEN
6 GWEITHREDWR
70+ O GLYBIAU

## 500,000 O OEDOLION A PHLANT CYMRU YN HEINI YN Y DŴR

## GWELEDIGAETH AR GYFER CHWARAEON YNG NGHYMRU

## DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

## RHAGLEN AR GYFER LLYWODRAETH YNG NGHYMRU

sportwales chwaraeoncymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

SWIM WALES
NOFIO CYMRU



# EIN GWELEDIGAETH

# GWEITHGAREDDAU DYFROL I BAWB AM OES


**Mae ein sefydliad wedi ymrwymo'n llwyr i gyflwyno ein gweithgareddau a'n chwaraeon i gynulleidfaoedd newydd ym mhob un gymuned, fel bod Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes yn cynrychioli amrywiaeth gyfoethog Cymru yn well. Byddwn yn sicrhau bod ein gweithgareddau a'n campau yn parhau i esblygu ac addasu er mwyn ffynnu yn y dyfodol, gan helpu i greu camp wirioneddol gynhwysol i bawb lle mae pawb yn gallu perthyn, ffynnu a serennu.**

SWIM WALES
NOFIO CYMRU

# EIN GENHADAETH

## CORFF LLYWODRAETHU CENEDLAETHOL SYDD AR FLAEN Y GAD O RAN SICRHAU RHAGORIAETH, SY'N YSBRYDOLI EIN CENEDL I FWYNHAU, CYMRYD RHAN, DYSGU A CHYSTADLU MEWN

## GWEITHGAREDDAU DYFROL I BAWB AM OES YNG NGHYMRU.



Ein nod yw y bydd Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes yng Nghymru, erbyn 2026, yn cynnig taith heini wirioneddol am oes, gyda chynnig cynhwysol i bob cymuned yn cael ei chefnogi ar bob cam bywyd a phob oedran, i fod y gamp o ddewis i bawb am flynyddoedd i ddod.

SWIM WALES
NOFIO CYMRU

# EIN DARPARIAETH

| 500,000 | 350,000+ | 3500 | 500 | 300+ | 127 | 70+ | 15+ | 1 | 1 | 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| o Oedolion a Phlant Cymru yn heini yn y dŵr. | o Oedolion yn Heini yn y Dŵr | o Wirfoddolwyr a Swyddogion | o Gyfleusterau Dŵr | o Weithredwyr/ Partneriaid | o Ysgolion Nofio | o Glybiau Dŵr | Tîm Datblygu a Gweithredol | Tîm Uwch Reoli | Prif Weithredwr | Bwrdd |

#UNTÎM




SWIM WALES
NOFIO CYMRU

# EIN GWERTHOEDD

## CYDWEITHIO

Byddwn yn cysylltu â llawer o wahanol grwpiau, partneriaid ac unigolion i sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn ein camp. Byddwn yn adeiladu perthnasoedd newydd a byddwn yn meithrin rhai sy'n bodoli eisoes i gefnogi syniadau da a symud ymlaen a gwarchod ein camp.

## ANGERDD

Byddwn yn angerddol ym mhopeth a wnawn. Rydym yn credu y gall ein gweithgareddau a'n campau helpu pobl a newid bywydau er gwell. Byddwn yn cefnogi gweithlu Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes anhygoel a gwirfoddolwyr i sicrhau eu bod yn teimlo'n rhan o'r teulu Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes. Bydd ein brwdfrydedd yn ysbrydoli pobl ledled y byd.

## UCHELGAIS

Byddwn yn uchelgeisiol ym mhopeth a wnawn, gan wthio ein hunain a'n camp i wneud yn dda bob amser. Byddwn yn sicrhau bod ein henw da ni o 'wneud llawer, gydag ychydig' a gwneud yn dda ar y llwyfan rhyngwladol yn parhau i'r dyfodol.

## ARLOESI

Byddwn yn arloesol drwy greu ffyrdd newydd o ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd a'n Haelodau. Byddwn yn defnyddio ffyrdd newydd o gyfathrebu ac yn gwneud newid sylweddol o ran dulliau digidol er mwyn sicrhau bod technoleg yn cael ei ddefnyddio hyd ei eithaf yn ein busnes.



SWIM WALES
NOFIO CYMRU

# EIN SIWRNAI DDYFROL



**SWIGOD**
6M - 3 OED

learn to swim wales

**TONNAU/NOFIO YSGOL**
5 - 11OED

**IEUENCTID I OEDOLION**
16 - 100+ OED

0 OED — 100+OED

**SBLASH**
3 - 5OED



**CLYBIAU/ACADEMI**
11 - 17OED

CYMDEITHASOL • ADLONIADOL • ATHRO • HYFFORDDWR
ACHUBWR BYWYD • GWIRFODDOLWR • CEFNOGWR

- DŴR AGORED
- DEIFIO
- NOFIO ARTISTIG
- MEISTRI
- POLO DWR

LLWYBRAU DATBLYGU CHWARAEON DŴR



SWIM WALES
NOFIO CYMRU

# EIN BLOCIAU STRATEGOL




## GWEITHGAREDDAU DYFROL

- Rheoli Aelodaeth
- Digwyddiadau a Chystadlaethau
- Chwaraeon Dŵr
- Dysgu Nofio
- Diogelwch yn y Dŵr
- Nofio Ysgol
- Partneriaid Dŵr
- Cyfranogiad a Llwybr
- Rhaglen Achredu
- Strategaeth Cyfleusterau




## PERFFORMIAD

- Sgwad(iau) Cenedlaethol
- Dewis Sgwadiau
- Rhaglen Perfformiad Cenedlaethol
- Gwyddor Chwaraeon / Meddygaeth
- Ymchwil a Phartneriaethau Academaidd
- Para Nofio
- Rhaglen Prydain




## MASNACHOL

- Nawdd
- Datblygu a Hyfforddiant
- Hyrwyddo Nwyddau
- Gwobrau a Bathodynnau
- Partneriaethau Strategol
- E-fasnach a Digidol
- Brand a Marchnata




## LLYWODRAETHU

- Polisïau a Gweithdrefnau
- Diogelu
- Lles
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Diogelu a Rheoli Data




## ARWEINYDDIAETH Y SECTOR

- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Cyfranogiad
- Chwaraeon Elît
- Diogelu
- Diogelu Cyfleusterau
- Cynaliadwyedd





## ADDYSG AC IECHYD

- Nofio Ysgol
- Diogelwch yn y Dŵr
- Dysgu Nofio
- Hyfforddiant a Datblygu
- Iechyd Corfforol
- Iechyd Meddwl
- Partneriaethau Iechyd

SWIM WALES
NOFIO CYMRU

# EIN FFRYDIAU STRATEGOL




SWIM WALES
NOFIO CYMRU

# EIN GALLUOGWYR

PERTHNASOEDD Â PHARTNERIAID

CYNHYRCHU INCWM

CYNALIADWYEDD – SERO NET

GWELLIANT PARHAUS

DATA, MEWNWELEDIAD AC YMCHWIL

DATBLYGU POBL (GWEITHLU CYFANNOL & GWIRFODDOLWYR)

LLYWODRAETHU DA

Y GYMRAEG

CYFLEUSTERAU ADDAS I'R PWRPAS

CHWARAEON DIOGEL

SWIM WALES
NOFIO CYMRU

# EIN PARTNERIAID

Llywodraeth Cymru Welsh Government
sport wales chwaraeon cymru
BRITISH SWIMMING
cymru | wales
wsa Welsh Sports Association
CHWARAEON ANABLEDD CYMRU DISABILITY SPORT WALES

speedo
Prifysgol Abertawe Swansea University
Urdd
TEAM GB
CLLLC WLGA
WCVA CGGC

Swim England
Scottish Swimming
BLACK SWIMMING ASSOCIATION
LEN european aquatics
WORLD AQUATICS
diverse cymru Promoting equality for all Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

empyrean digital
Lifeboats
SWIM SAFE CYMRU YN FWY DIOGEL YN Y DŴR AC O'I AMGYLCH SAFER IN AND AROUND WATER
water safety Wales
Dŵr Cymru Welsh Water
NSPCC
ann craft trust acting against abuse

# EIN HAMCANION23

DYFROL · PERFFORMIAD · MASNACHOL · CAC · LLYWODRAETHU
ARWEINYDDIAETH Y SECTOR · ADDYSG AC IECHYD · CYDRADDOLDEB

- Cyflwyno LLWYBRAU CYNHWYSOL ar draws yr holl weithgareddau dŵr a chwaraeon
- Gweithredu gwelliannau i NOFIO YSGOL mewn partneriaeth â'r Is-adran Polisi Chwaraeon a'r Adran Addysg
- Cynnal adolygiad llawn o GYSTADLAETHAU A DIGWYDDIADAU a gweithredu newidiadau
- Gweithredu STRATEGAETH TWF AELODAETH NEWYDD ar draws pob categori

---

- Cyflawni RHAGLEN SGWAD GENEDLAETHOL DDATBLYGIADOL A CHYNHWYSOL
- Gweithredu ein prosiect TRAWSNEWID ELÎT BENYWAIDD
- Darparu LLWYBR DATBLYGU PERFFORMIAD HYFFORDDWYR Nofio Cymru

---

- Datblygu a marchnata CYNNIG NAWDD Nofio Cymru 2023
- Sicrhau PARTNER BRAND RHYNGWLADOL NEWYDD
- Cynyddu ARALLGYFEIRIO CYNHYRCHION NOFIO CYMRU
- Lansio PASBORT CHWARAEON 2.0

---

- Datblygu RHAGLEN CYMORTH ARWEINYDDIAETH Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes (Clybiau Cyfnod 1)
- Cyflwyno MODEL GWEITHREDU CYNALIADWY A CHYNHWYSOL wedi'i alinio â GLFW (Fframwaith Arweinyddiaeth Da i Gymru)
- Cyhoeddi POLISI TRAWSRYWEDDOL Nofio Cymru
- Gweithredu ARGYMHELLION LLYWODRAETHU CHWARAEON CYMRU

---

- Cwblhau ARCHWILIAD CYFLEUSTERAU CENEDLAETHOL yn 2023
- Cwblhau'r ASTUDIAETH DEFNYDD O YNNI ar gyfer pyllau Cymru
- Creu CYNLLUN CYNALIADWYEDD i gefnogi partneriaid Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes
- Creu Cynllun Cynaliadwyedd DŴR SERO NET yn Nofio Cymru
- Cynnal safon DIOGELU MEWN CHWARAEON (Plant mewn Chwaraeon) L3
- Cyflwyno ARCHWILIADAU LLYWODRAETHU 'gorau yn y dosbarth' (Annibynnol a Chwaraeon Cymru)
- Cyhoeddi STRATEGAETH DDIGIDOL i Nofio Cymru

---

- Atgyfnerthu partneriaethau GIG cymru (Gofal ar ôl canser, MSK, VoG)
- Lansio STRATEGAETH IECHYD MEDDWL Nofio Cymru gyda phartneriaid
- Lansio RHAGLEN HYFFORDDI CENEDLAETHOL CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT
- Gweithredu gwelliannau V2.0 NOFIO YSGOL mewn partneriaeth â'r Is-adran Polisi Chwaraeon a'r Adran Addysg
- Cyflwyno S.A.F.E. CYMRU ar draws 5 safle partner yng Nghymru

---

- Lansio a gweithredu ein CYNNWYS FFRAMWAITH Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant CENEDLAETHOL
- Sefydlu RHWYDWAITH GWEITHGAREDDAU DYFROL I BAWB AM OES CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT a gweithgorau
- Gwella AMRYWIAETH Y PANEL IEUENCTID

---

- Cymryd rhan mewn CYNLLUN PEILOT DIOGELU OEDOLION MEWN PERYGL yng Nghymru
- Cymryd rhan mewn CYNLLUN PEILOT DIOGELU OEDOLION MEWN PERYGL yng Nghymru
- Cyflawni lefel sylfaen SAFON DIOGELU OEDOLION MEWN PERYGL
- Darparu hyfforddiant HYFFORDDIANT OEDOLION MEWN PERYGL ar draws ein rhwydweithiau Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes
- Cynnal FFORYMAU SWYDDOGION LLES CHWARTEROL
- Cynnal safon DIOGELU MEWN CHWARAEON (Plant mewn Chwaraeon) L3
- Cyflwyno AP FY LLAIS i'n cynulleidfa Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes Cyrraedd lefel sylfaen SAFON DIOGELU OEDOLION MEWN PERYGL

# EIN HAMCANION24

DYFROL · PERFFORMIAD · MASNACHOL · CAC · LLYWODRAETHU · ARWEINYDDIAETH Y SECTOR · ADDYSG AC IECHYD · CYDRADDOLDEB

| | | |
|---|---|---|
| DYFROL | • Creu a lansio rhaglen ARWEINYDD GWEITHGAREDDAU DYFROL I BAWB AM OES IEUENCTID<br>• GWELLA PERTHNASOEDD PARTNER GWEITHGAREDDAU DYFROL I BAWB AM OES a nodi cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithredu | • Gweithredu swyddogaeth SYSTEM AELODAETH YCHWANEGOL |
| PERFFORMIAD | • Datblygu a chyflwyno rhaglenni datblygu rhanbarthol cynhwysol<br>• DEFNYDDIO PARTNERIAETHAU ACADEMAIDD er mwyn sicrhau dull arloesol a arweinir gan ymchwil at hyfforddiant nofwyr perfformiad uchel a nofwyr para | • Gwella'r LLWYBR CYSTADLU RHANBARTHOL A CHENEDLAETHOL er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi egwyddorion datblygu athletwyr yn well<br>• SICRHAU'R GYNRYCHIOLAETH FWYAF O GYMRU yn Sgwad GB Paris 2024 |
| MASNACHOL | • Cynnal YMGYRCHOEDD MARCHNATA DIGIDOL<br>• CRYFHAU PERTHNASOEDD â noddwyr presennol, a phartneriaid masnachol | • Sicrhau AIL BARTNER BRAND RHYNGWLADOL |
| LLYWODRAETHU | • Datblygu RHAGLEN CYMORTH ARWEINYDDIAETH GWEITHGAREDDAU DYFROL I BAWB AM OES (Darparwyr LTS Cam 2) | • ARCHWILIAD LLYWODRAETHU MEWNOL llawn<br>• Adolygiad llawn o BOLISÏAU a GWEITHDREFNAU NOFIO CYMRU (2 flynedd) |
| ARWEINYDDIAETH Y SECTOR | • Creu MAP FFORDD BUDDSODDI CYFLEUSTERAU i Gymru<br>• Sefydlu RHWYDWAITH PARTNERIAID CYNALIADWYEDD allanol | • Creu Cynllun Cynaliadwyedd DŴR SERO NET yn Nofio Cymru<br>• Cyflwyno RHAGLEN ADDYSG DIOGELU ar gyfer Swyddogion Lles |
| ADDYSG AC IECHYD | • Sefydlu CYNLLUN ATGYFEIRIO CLEIFION I WEITHGAREDDAU DŴR GAN FEDDYGON TEULU yng Nghymru<br>• Gwobr Diwydiant / Cydnabyddiaeth CYNNWYS<br>• CYHOEDDI ADRODDIAD CENEDLAETHOL ar gyfer V2.0 Nofio Ysgol | • Gwelliannau yn y bartneriaeth ag Is-adran POLISI CHWARAEON a'r Adran Addysg<br>• Cyflwyno S.A.F.E. CYMRU ar draws 10 safle partner yng Nghymru |
| CAC | • Lansio a gweithredu ein CYFRES ADDYSG CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT ar draws pob cymuned a phartner Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes yn 2024 | • Gwella DATA a MEWNWELEDIAD a MESURIADAU CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT yng Nghymru |
| CYDRADDOLDEB | • Adolygiad 2024 o BOLISI DIOGELU PLANT Nofio Cymru<br>• Cynnal safon DIOGELU MEWN CHWARAEON (Plant mewn Chwaraeon) L3 | • Adolygu Rhaglen ADDYSG SWYDDOGION LLES<br>• Cynnal lefel sylfaen SAFON DIOGELU OEDOLION MEWN PERYGL |

# EIN HAMCANION25

DYFROL · PERFFORMIAD · MASNACHOL · CAC · LLYWODRAETHU · ARWEINYDDIAETH Y SECTOR · ADDYSG AC IECHYD · CYDRADDOLDEB

| | |
|---|---|
| • TWF AELODAETH NEWYDD – Cynnydd O 10% ar draws pob categori | • Cynyddu nifer darparwyr achrededig Nofio Cymru yng Nghymru o 50% |
| • Darparu LLWYBR DATBLYGU HYFFORDDWYR CYNHWYSOL yn Nofio Cymru<br>• Sefydlu rhaglen CYMORTH GWYDDORAU CHWARAEON O'R RADD FLAENAF drwy gydweithio'n effeithiol â phartneriaid allweddol | • Sefydlu AMGYLCHEDDAU PERFFORMIAD UCHEL FFYNIANUS, cynhwysol ac arloesol |
| • Arallgyfeirio FFRYDIAU REFENIW<br>• Optimeiddio E-FASNACH | • Cyflwyno TRYDYDD PARTNER BRAND RHYNGWLADOL |
| • • Adolygu'r RHAGLEN CYMORTH ARWEINYDDIAETH DYFROL gydag ymgynghoriad partneriaid | |
| • Cwblhau ARCHWILIAD o GYFLEUSTERAU CENEDLAETHOL yn 2025 | • Gwneud y gorau o'r PORTFFOLIO DIGIDOL ar draws y rhwydwaith partneriaid |
| • Cyflwyno PARTNERIAETHAU GIG YCHWANEGOL (Alzheimers/Dementia, gofal arthritis)<br>• Adolygiad o STRATEGAETH IECHYD MEDDWL yng Nghymru Nofio Cymru<br>• Adolygu a mireinio'r RHAGLEN HYFFORDDIANT CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT GENEDLAETHOL | • Gweithredu NOFIO YSGOL<br>• Gwelliannau mewn partneriaeth ag Is-adran POLISI CHWARAEON a'r Adran Addysg |
| • Cyflawni ACHREDIAD ARIAN INSPORT CHWARAEON ANABLEDD CYMRU ar gyfer Nofio Cymru<br>• Sefydlu SYSTEMAU GWELLA PARHAUS i fonitro ein hymgysylltiad cymunedol | • Sefydlu ADOLYGIAD CENEDLAETHOL ar draws partneriaid Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes i fesur cynnydd (3 blynedd) |
| • Adolygiad 2025 o BOLISI OEDOLION MEWN PERYGL Nofio Cymru<br>• Cynnal safon DIOGELU MEWN CHWARAEON (Plant mewn Chwaraeon) L3 | • Gweithredu gwelliannau rhaglen ADDYSG SWYDDOGION LLES<br>• Cynnal lefel sylfaen SAFON DIOGELU OEDOLION MEWN PERYGL |

# EIN CANLYNIADAU



## GWEITHGAREDDAU DYFROL

- Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes fydd y prif gamp o ran cyfranogi ymhlith plant ac oedolion yng Nghymru
- Bydd gan Nofio Cymru lwybrau cyfranogiad cwbl gynhwysol ar draws pob disgyblaeth dŵr mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys ein clybiau sy'n aelodau.
- Bydd Nofio Cymru yn cynnig rhaglen o gystadlaethau a digwyddiadau o'r radd flaenaf sy'n diwallu anghenion athletwyr dŵr ar bob lefel.
- Bydd gan Nofio Cymru raglen dysgu nofio gynhwysfawr a chynhwysol ar draws Cymru gyfan.

## PERFFORMIAD

- Bydd Nofio Cymru wedi cynhyrchu mwy o athletwyr gweithgaerddau dŵr sydd â'r potensial i fod yn llwyddiannus ar lefelau Ewrop, y Gymanwlad, a'r byd.
- Bydd gan ein Rhaglen o'r radd flaenaf amgylcheddau hyfforddi sefydledig a chynhwysol sy'n cefnogi datblygu athletwyr dŵr elît.
- Bydd Nofio Cymru wedi sefydlu timau hyfforddi a gwyddor chwaraeon o ansawdd uchel sy'n gallu cefnogi athletwyr dŵr o fewn y rhaglen berfformio.

## MASNACHOL

- Byddwn wedi datblygu amrywiaeth o gynnyrch sy'n apelio at ein cynulleidfaoedd amrywiol a marchnadoedd targed eang.
- Bydd Nofio Cymru wedi cynhyrchu portffolio o wasanaethau proffesiynol a fydd yn apelio at ein holl gwsmeriaid a rhanddeiliaid.
- Bydd gennym gytundebau nawdd aml-flwyddyn gydag o leiaf 3 brand rhyngwladol.
- Byddwn wedi cyflawni sgôr boddhad sylfaenol o 80% ym mhob arolwg gwasanaeth cwsmeriaid priodol.
- Bydd Nofio Cymru wedi cynyddu ein refeniw masnachol i £1m (dim cyllid) am y tro cyntaf.

## LLYWODRAETHU

- Bydd gan Nofio Cymru lywodraethiant o'r radd flaenaf a phrosesau cydymffurfio sy'n sicrhau nad oes dim materion rheoleiddio.
- Byddwn yn parhau i gynnal cyfres o bolisiau a gweithdrefnau o'r radd flaenaf sy'n darparu sylfaen ar gyfer strwythur llywodraethu cryf ar draws holl weithgareddau Nofio Cymru.
- Bydd Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes yn cael eu cydnabod fel rhai o'r gweithgareddau a chwaraeon mwyaf diogel yng Nghymru gan sicrhau bod gweithdrefnau diogelwch a lles o'r radd flaenaf ar waith ar gyfer pob cyfranogwr gweithgareddau dŵr.

## ARWEINYDDIAETH SECTOR

- Nofio Cymru fydd llais mwyaf a hyrwyddwr buddsoddiad y sector ar gyfer pob cyfleuster Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes yng Nghymru.
- Byddwn yn cael ein cydnabod fel partner blaenllaw i Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru ac yn elfen allweddol o'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru:
- Bydd Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes yn cael eu hystyried fel y gweithgareddau a champau mwyaf cynhwysol yng Nghymru.

## ADDYSG AC IECHYD

- Bydd gweithgareddau a disgyblaethau dŵr yn ganolog i wasanaethau iechyd y cyhoedd yng Nghymru
- Nofio Cymru fydd y partner chwaraeon cyntaf o ddewis ar gyfer partneriaid iechyd meddwl a chorfforol (gan gynnwys GIG a'r System Cyfeirio Cenedlaethol).
- Bydd pobl ifanc yn cael mynediad at gyfleoedd drwy eu hysgol, coleg neu brifysgol sy'n cefnogi rôl bwysig Gweithgareddau Dyfrol i bawb am oes fel sgìl bywyd.

SWIM WALES
NOFIO CYMRU


THANK YOU
DIOLCH
YMLAEN®
SWIM WALES
NOFIO CYMRU
NOFIO CYMRU
Pwll Cenedlaethol Cymru
Parc Chwaraeon Bae Abertawe
SA2 8QG
swimwales.org • 01792 513636
@SwimWales